# Cynllun Gweithredu Llwybr Rhywogaethau Estron Prydain Fawr: Genweirio

## Cefndir cynllunio gweithredu

Mae lleihau’r risg a achosir gan lwybrau cyflwyno a lledaenu yn ffordd allweddol o fynd i’r afael â rhywogaethau estron goresgynnol. Mae Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr yn galw am ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Llwybrau ac maent yn ofynnol o dan Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE a gedwir.
Gall Cynlluniau Gweithredu Llwybrau hefyd fod yn elfen o'r rhaglen o fesurau o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

Mae'r Cynllun Gweithredu Llwybr hwn yn un o gyfres o gynlluniau a fwriedir i fynd i'r afael â llwybrau cyflwyno neu ledaenu rhywogaethau anfrodorol ym Mhrydain Fawr. Mae'r cynllun yn amlinellu'r polisi a dulliau gweithredu cyffredinol yn ogystal â'r hyn y mae modd ei gyflawni gan y llywodraeth a gweithredwyr eraill mewn perthynas â'r mater hwn.

## Cwmpas

Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu at y llwybr genweirio, sy'n cwmpasu amgylcheddau morol, lled hallt a dŵr croyw, pysgota bras a hela, gan gynnwys pysgodfeydd gwyllt a physgodfeydd â stoc, ond nid yw'n cynnwys dyframaethu. Cwmpas daearyddol y Cynllun Gweithredu Llwybr yw Prydain Fawr ond bydd hefyd yn cyfeirio lle bo'n berthnasol at Ogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon a thu hwnt (yn enwedig cyfandir Ewrop). Bydd Cynllun Gweithredu Llwybr cyfatebol i’r Alban i gyd-fynd â Chynllun Gweithredu Llwybr Prydain Fawr i helpu i arwain y gwaith gweithredu yn yr Alban.

Mae gan y Cynllun Gweithredu Llwybr hwn nifer sylweddol o gamau gweithredu sy'n gyffredin â'r Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Hamddena ar Gychod sydd ar ddod a dylai rhanddeiliaid fod yn ymwybodol o'r ddogfen arall hon hefyd.

Paratowyd y cynllun hwn gan weithgor (Gweithgor Cynllun Gweithredu Llwybr Genweirio Prydain Fawr) a oedd yn adrodd i Fwrdd Rhaglen Rhywogaethau Estron Prydain Fawr (gweler Atodiad 1 am aelodaeth).

## Sail resymegol

Ar hyn o bryd, mae tua 200 o rywogaethau estron dyfrol wedi'u sefydlu ym Mhrydain ac mae rhywogaethau dyfrol yn arbennig o debygol o fod yn oresgynnol. Yn ystod y degawdau diwethaf, mae’r gyfradd cyrraedd wedi cyflymu – e.e. yn yr amgylcheddau lled hallt a dŵr croyw, mae un rhywogaeth Ponto-Caspiaidd newydd yn goresgyn Prydain bob dwy i dair blynedd o gymharu ag un bob 100 mlynedd cyn 1992. Mae'r rhain yn cynnwys berdys rheibus a berdys cythreulig a’r gragen las ledresog. Mae yna hefyd lawer o rywogaethau dyfrol pellach ar fin goresgyn y DU, ystod o afiechydon pysgod

Pre-consultation Draft

sy'n fygythiad i bysgod yn y DU, a sawl pysgodyn goresgyn fel y llyfrothen uwchsafn sy'n fygythiad i enweirio.

Mae bioddiogelwch da yn allweddol ac mae'r llywodraeth, ers 2011, wedi bod yn datblygu'r ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd *Edrych, Golchi, Sychu* gyda'r nod o wella bioddiogelwch ymhlith defnyddwyr dŵr. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrch ffiniau a ddechreuodd yn 2016 ac sydd wedi tyfu'n flynyddol ers hynny. Yn 2018, ehangwyd yr ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu i Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel.

Mae Cod Ymarfer Ewropeaidd ar gyfer Genweirio sydd wedi'i ddatblygu o dan Gonfensiwn Bern ac mae'r maes hwn hefyd yn cael ei gwmpasu gan nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sy'n darparu gwaharddiad cyffredinol ar ryddhau'r rhan fwyaf o rywogaethau estron anifeiliaid a llawer o blanhigion yng Nghymru a Lloegr, a phob rhywogaeth estron yn yr Alban. Mae Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â throseddau, cosbau, gorfodi a thrwyddedu er mwyn gweithredu rhai o ofynion Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE a gedwir. Mae'r gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru a Lloegr a'r ardal forol alltraeth, ac o ran unrhyw ddarpariaeth sy'n gymwys mewn perthynas â rheolaethau ar fewnforion i mewn ac allforion o'r Deyrnas Unedig, ac unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud ag unrhyw ddarpariaeth o'r fath, i'r Alban a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn cael ei diwygio er mwyn darparu ar gyfer mesurau gorfodi a brys o dan y rheoliad a gedwir. Mae deddfwriaeth berthnasol arall yn cynnwys:

- Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Lloegr a Dalgylch Afon Esk) 2015
- Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2014
- Deddf Mewnforio Pysgod Byw (Cymru a Lloegr) 1980
    - Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Lloegr) 2014
    - Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Cymru) 2015
    - Gorchymyn Gwahardd Cadw Pysgod Byw (Cimwch yr Afon) 1996
- Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Gofynion Cadw a Rhyddhau a Hysbysu) (Yr Alban) 2012
- Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw (Cydgrynhoi) (Yr Alban) 2003 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Yr Alban) 2009
- Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010

Ceir rhagor o fanylion am y fframwaith deddfwriaethol ar wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.

Fodd bynnag, nid yw deddfwriaeth yn unig yn ddigon i reoli a lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â chyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

Pre-consultation Draft

Mae'n gofyn am gydweithio a chydweithrediad gan bawb dan sylw: mae pob sector yn rhan o'r ateb ac yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o reoli rhywogaethau estron goresgynnol a gweithredu'r arferion bioddiogelwch gorau. Mae'r cynllun hwn yn nodi camau gweithredu ychwanegol i helpu i leihau'r risg o gyflwyno a symud rhywogaethau estron a achosir gan enweirwyr.

Mae gweithgor y Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Genweirio wedi addasu cod ymddygiad Confensiwn Bern i'w deilwra i anghenion Prydain Fawr (Atodiad 4) ac wedi datblygu canllawiau cytunedig ar gyfer perchnogion pysgodfeydd (Atodiad 5). Ei brif allbwn, fodd bynnag, fu cytuno ar gyfres o fesurau i godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithredwyr allweddol yn y sector genweirio a chryfhau mecanweithiau bioddiogelwch presennol. Amlinellir y camau hyn isod a dyma brif gorff y cynllun gweithredu.

**Nodau ac amcanion**

Nod cyffredinol y Cynllun Gweithredu Llwybr yw lleihau'r risg y bydd genweirwyr yn cyflwyno ac yn lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol yn seiliedig ar arferion da rhyngwladol.

Amcanion penodol yw:

- Hwyluso'r defnydd o arferion bioddiogelwch da gan y gymuned genweirio.
- Codi ymwybyddiaeth o fater rhywogaethau estron ymhlith genweirwyr.
- Codi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron ymhlith rheolwyr pysgodfeydd, perchnogion glannau afon a gweithredwyr/defnyddwyr perthnasol eraill.
- Codi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron ymhlith masnachwyr a'r cyfryngau.
- Annog yr holl randdeiliaid i adrodd am rywogaethau estron newydd i Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, CNC ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban ar gyfer amgylcheddau dŵr croyw, a'r Sefydliad Rheoli Morol, Awdurdodau Gwarchod Pysgodfeydd y Glannau, CNC, Llywodraeth Cymru neu Marine Scotland ar gyfer amgylcheddau morol a lled hallt.
- Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth.

**Camau**

Pre-consultation Draft

*Mae camau gweithredu cyffredinol allweddol wedi'u hamlinellu isod ac mae set fanylach o gamau gweithredu i'w gweld yn Atodiad 3.*

*Cam gweithredu 1*
Bydd yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron yn goruchwylio'r gwaith o redeg ymgyrch bioddiogelwch Edrych, Golchi, Sychu ar y ffin sy'n canolbwyntio ar y llwybrau mynediad risg uchel i Brydain Fawr – yn bennaf fferïau o Loegr i ardaloedd agos o'r cyfandir.

*Cam gweithredu 2*
Bydd Llywodraeth yr Alban yn cynnal ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu mewn meysydd awyr perthnasol a ddefnyddir gan enweirwyr yn yr Alban.

*Cam gweithredu 3*
Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu ym mhorthladdoedd Cymru sy'n cysylltu â Gweriniaeth Iwerddon.

*Cam gweithredu 4*
Bydd yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron (ac Ysgrifenyddiaeth y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig) yn sefydlu ac yn rhedeg grŵp Bioddiogelwch Dyfrol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig i gytuno ar fesurau cydgysylltiedig, gan gynnwys gweithredu mewn porthladdoedd a meysydd awyr ac ar fferïau ac awyrennau.

*Cam gweithredu 5*
Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i arddangos logo Edrych, Golchi, Sychu ar ei holl drwyddedau genweirio.

*Cam gweithredu 6*
Bydd yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron yn arwain ar gydgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd ac aelod-wladwriaethau perthnasol yr UE i gytuno ar raglen weithredu sy'n ymwneud â bioddiogelwch dyfrol (gweler Atodiad 6 ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth y byddwn yn ceisio eu hatal rhag cyrraedd). Bydd hon yn targedu:

- Genweirwyr cyfandirol yn dod i Brydain Fawr
- Genweirwyr Prydain Fawr / DU yn dychwelyd o'r cyfandir

*Cam gweithredu 7*
Bydd yr Ymddiriedolaeth Genweirio ac Angling Cymru (gan gysylltu â chyrff cystadlu eraill fel y bo'n briodol) yn llunio rhestr o gystadlaethau wedi'u blaenoriaethu bob blwyddyn (yn seiliedig ar risg – yn ymwneud â chyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol) i'w targedu ar gyfer mesurau codi ymwybyddiaeth uwch, megis arddangosiadau bioddiogelwch ac ati. Bydd hyn yn cael ei gytuno gan y gweithgor.

> *Cam gweithredu 7A*
> Bydd trefnwyr/perchnogion perthnasol yn gweithredu'r gweithgareddau codi ymwybyddiaeth uwch yn y safleoedd/digwyddiadau sydd wedi'u blaenoriaethu.

Pre-consultation Draft

*Cam gweithredu 8*
Bydd cwmnïau dŵr, Glandŵr Cymru, Scottish Canals, Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, Treftadaeth Naturiol yr Alban, Ystad y Goron ac CNC yn rhoi cyfeiriad at gynnal bioddiogelwch ym mhob cytundeb prydlesu a rheoli sy’n ymwneud â genweirio (wrth iddynt gael eu hadnewyddu).

*Cam gweithredu 9*
Bydd yr Ymddiriedolaeth Genweirio yn annog pob clwb genweirio i ychwanegu'r cymal bioddiogelwch (Atodiad 7) at eu cyfansoddiadau.

*Cam gweithredu 10*
Bydd y gweithgor yn llunio ac yn cynnal rhestr o safleoedd/dyfrffyrdd sy'n cynnwys rhywogaethau estron goresgynnol critigol (ar lefel Prydain Fawr a lefel genedlaethol) sy'n flaenoriaeth i atal/arafu'r lledaeniad (gweler Atodiad 8 am restr rhywogaethau critigol Prydain Fawr) a lle mae genweirio yn digwydd.

*Cam gweithredu 10A*
Bydd perchnogion a rheolwyr y safleoedd hyn a lle mae genweirio yn digwydd yn gosod cyfleusterau ac arwyddion i hyrwyddo bioddiogelwch uchel iawn. Gall hyn gynnwys:

- Llawr arwyneb caled addas
- Cyfleusterau golchi dŵr oer
- Arwyddion mawr amlwg
- Cyfleusterau golchi dŵr poeth lle bo modd
- Yn ogystal, deddfu is-ddeddfau bioddiogelwch lle bo modd

*Cam gweithredu 10B*
Bydd trefnwyr digwyddiadau genweirio yn gweithredu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth uwch ac yn sicrhau bioddiogelwch llym yn y safleoedd â blaenoriaeth.

*Cam gweithredu 11*
Bydd yr Ymddiriedolaeth Genweirio yn hyrwyddo Cod Ymddygiad yr UE ac yn annog sefydliadau genweirio aelod-wladwriaethau eraill yr UE i fabwysiadu Edrych, Golchi, Sychu drwy Gynghrair Genweirwyr Ewrop.

*Cam gweithredu 12*
Bydd arolygiaethau iechyd pysgod yn dosbarthu'r canllawiau bioddiogelwch pysgodfeydd (Atodiad 5) i bysgodfeydd fel y bo'n briodol.

*Cam gweithredu 13*
Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, CNC, Llywodraeth Cymru, y Sefydliad Rheoli Morol, Awdurdodau Gwarchod Pysgodfeydd y Glannau ac Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban yn darparu llwybr adrodd ar gyfer rhywogaethau estron newydd. Pan gadarnheir rhywogaeth, bydd yr asiantaethau hyn yn cymryd camau priodol.

*Cam gweithredu 14*
Bydd Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu yn cynnal asesiad cynhwysfawr o'r risg a achosir gan symud abwyd sy'n

Pre-consultation Draft

gysylltiedig â genweirio morol ar gyfer (i) cyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol i Brydain Fawr a (ii) symud rhywogaethau estron goresgynnol i ardaloedd newydd ym Mhrydain Fawr, ac yn adrodd yn ôl i'r gweithgor.

**Monitro a diweddaru**

Bydd y gweithgor yn cael ei ailgynnull o leiaf unwaith y flwyddyn i asesu'r cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu a hefyd i gytuno ar y rhestr flaenoriaeth o gystadlaethau (Cam gweithredu 7) ac i gynnal y rhestr o safleoedd â rhywogaethau estron goresgynnol critigol (Cam gweithredu 10).

Er mwyn asesu'r cynnydd cyffredinol o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Llwybr, bydd y grŵp yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys y canlynol:

- Nifer y sefydliadau/clybiau/safleoedd sydd wedi cofrestru i hyrwyddo Edrych, Golchi, Sychu.
- Defnydd sylfaenol o fioddiogelwch ymhlith genweirwyr – yna mesur gwelliannau i'r defnydd yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i enweirwyr sy'n teithio dramor ac i enweirwyr tramor sy'n ymweld â Phrydain Fawr o dramor.
- Nifer y digwyddiadau genweirio a drefnwyd gan bob actor allweddol perthnasol sydd wedi darparu cyfleusterau glanhau bob blwyddyn i ddangos tuedd gynyddol.
- Nifer yr asedau dŵr / pwyntiau mynediad sy'n darparu cyfleusterau glanhau i bysgotwyr yn barhaol neu dros dro, e.e. yn ystod y tymor brig (ac o fewn hynny, faint sy'n hyrwyddo/plismona eu defnydd).

Pre-consultation Draft

**Atodiad 1:** Aelodau'r gweithgor.

Cynrychiolwyd y sefydliadau canlynol ar weithgor y Cynllun Gweithredu Llwybr:

Ymddiriedolaeth Genweirio (cadeirydd)
Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron (ysgrifennydd)
Anglian Water
Glandŵr Cymru
Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu

Defra
Asiantaeth yr Amgylchedd
Rheoli Pysgodfeydd yr Alban
Natural England
Cyfoeth Naturiol Cymru
Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban
Llywodraeth yr Alban
NatureScot (Treftadaeth Naturiol yr Alban gynt)
South West Water
Llywodraeth Cymru

<u>Aelodau gohebol:</u>
DAERA – Gogledd Iwerddon

Pre-consultation Draft

**Atodiad 2:** Gweithredwyr allweddol yn ymwneud â'r Cynllun Gweithredu Llwybr.

- Clybiau genweirio
- Hyfforddwyr genweirio
- Trefnwyr teithiau genweirio
- Cymdeithas Masnach Genweirio
- Ymddiriedolaeth Genweirio a sefydliadau genweirio eraill
- Glandŵr Cymru a Chamlesi'r Alban
- Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu
- Defra, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron
- Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban
- Arolygiaethau iechyd pysgod
- Colegau pysgodfeydd a sefydliadau addysg uwch
- Pysgodfeydd y glannau ac awdurdodau cadwraeth
- Rheoli Pysgodfeydd yr Alban
- Sefydliad Rheoli Pysgodfeydd
- Grwpiau gweithredu lleol
- Sefydliad Rheoli Morol
- Trefnwyr genweirio cystadleuol
- Natural England
- Awdurdodau porthladd a harbwr
- Perchnogion glannau afonydd
- Ymddiriedolaethau afonydd
- Comisiwn Afon Tweed a byrddau/ymddiriedolaethau eogiaid yr Alban
- Perchnogion a rheolwyr pysgodfeydd hamdden
    - DU, Ffrainc ac ati
- NatureScot (Treftadaeth Naturiol yr Alban gynt)
- Cwmnïau dŵr
- Perchnogion asedau dyfrol eraill sy'n caniatáu genweirio
    - Awdurdodau lleol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban, ymddiriedolaethau natur, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, y Comisiwn Coedwigaeth, Ystad y Goron
- Sefydliadau cadwraeth pysgod gwyllt

Pre-consultation Draft

**Atodiad 3:** Tabl o gamau gweithredu ar gyfer gweithredwyr allweddol.

| | Glandŵr Cymru a Chamlesi'r Alban | Asiantaeth yr Amgylchedd ac CNC | Yr Ymddiriedolaeth Genweirio a sefydliadau genweirio eraill | Cwmnïau dŵr a pherchnogion asedau dyfrol eraill lle caniateir genweirio | Trefnwyr genweirio cystadleuol | Trefnwyr teithiau genweirio | Perchnogion pysgodfeydd hamdden – Prydain Fawr, Ffrainc, ac ati | Awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill (sy'n berchen ar neu'n rheoli pysgodfeydd) | Clybiau genweirio | Ymddiriedolaethau afonydd a physgodfeydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bioddiogelwch safle | | | | | | | | | | |
| Cynnal asesiadau risg bioddiogelwch ar yr holl asedau dyfrol mewn perthynas â risgiau genweirio a datblygu mesurau i liniaru'r risgiau allweddol a nodwyd ar gyfer (i) cyflwyno rhywogaethau i safle a (ii) lledaenu ymlaen. | | | | ✓ | ✓ (ar gyfer pob digwyddiad cystadleuol) | | | ✓ | | ✓ |
| Codi ymwybyddiaeth o egwyddorion *Edrych, Golchi, Sychu* | | | | | | | | | | |
| Arddangos deunyddiau *Edrych, Golchi, Sychu* (gan gynnwys arwyddion parhaol) ym mhob corff dŵr neu fannau mynediad genweirio sy'n eiddo i'r sefydliad, lle mae genweirio yn digwydd. | ✓ (mewn safleoedd blaenoriaeth uchel) | ✓ | | ✓ (mewn safleoedd risg uchel a nodwyd yn yr asesiad risg bioddiogelwch) | ✓ (mewn digwyddiadau cystadleuol) | | ✓ (ger y fynedfa i gyrff dŵr) | ✓ (mewn safleoedd gyda mynediad cyhoeddus ar gyfer genweirio) | ✓ (ger mynedfa/allanfa cyrff dŵr) | ✓ |
| Lledaenu deunyddiau *Edrych, Golchi, Sychu* i glybiau aelodaeth neu glybiau sy'n defnyddio'ch asedau i'w harddangos yn nyfroedd eu clwb neu mewn mannau cyhoeddus a ddefnyddir gan enweirwyr. | | | ✓ | ✓ | | | | | | |
| Cynnwys erthyglau mewn cylchgronau aelodaeth, bwletinau a chylchlythyrau. | ✓ | ✓ (gan gynnwys cylchlythyr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ (bioddiogelwch ar y ffin) | ✓ | | ✓ | ✓ |

Pre-consultation Draft

| | Glandŵr Cymru a Chamlesi'r Alban | Asiantaeth yr Amgylchedd ac CNC | Yr Ymddiriedolaeth Genweirio a sefydliadau genweirio eraill | Cwmnïau dŵr a pherchnogion asedau dyfrol eraill lle caniateir genweirio | Trefnwyr genweirio cystadleuol | Trefnwyr teithiau genweirio | Perchnogion pysgodfeydd hamdden – Prydain Fawr, Ffrainc, ac ati | Awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill (sy'n berchen ar neu'n rheoli pysgodfeydd) | Clybiau genweirio | Ymddiriedolaethau afonydd a physgodfeydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | trwydded gwialen) | | | | | | | | |
| Creu cynnwys cyfryngau cymdeithasol sy'n addysgu dilynwyr am rywogaethau estron goresgynnol a hyrwyddo egwyddorion *Edrych, Golchi, Sychu*. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Cynnwys dolenni i wefan *Edrych, Golchi, Sychu* ar wefan y sefydliad. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Lledaenu deunyddiau *Edrych, Golchi, Sychu* i enweirwyr. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ (i aelodau) |
| Enwebu hyrwyddwr *Edrych, Golchi, Sychu* i hyrwyddo bioddiogelwch. | | | ✓ | ✓ (yn ddelfrydol ar bob safle) | ✓ (digwyddiadau cystadleuol) | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Arddangos logo *Edrych, Golchi, Sychu* ar bob trwydded genweirio yng Nghymru a Lloegr. | | ✓ | | | | | | | | |
| Arddangos logo *Edrych, Golchi, Sychu* ar drwyddedau pysgota. | | | | ✓ | | | | | | |
| Cyflwyno sgwrs ar fioddiogelwch i ymwelwyr. | | | | ✓ | | | ✓ | | | |
| Annog arferion bioddiogelwch da. | | | | | | | | | | |

Pre-consultation Draft

| | Glandŵr Cymru a Chamlesi'r Alban | Asiantaeth yr Amgylchedd ac CNC | Yr Ymddiriedolaeth Genweirio a sefydliadau genweirio eraill | Cwmnïau dŵr a pherchnogion asedau dyfrol eraill lle caniateir genweirio | Trefnwyr genweirio cystadleuol | Trefnwyr teithiau genweirio | Perchnogion pysgodfeydd hamdden – Prydain Fawr, Ffrainc, ac ati | Awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill (sy'n berchen ar neu'n rheoli pysgodfeydd) | Clybiau genweirio | Ymddiriedolaethau afonydd a physgodfeydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfyngu mynediad i gyrff dŵr, lle bo modd, i un pwynt lle mae canllaw *Edrych, Golchi, Sychu* yn cael ei arddangos. Dylai ymwelwyr fewngofnodi ac allgofnodi, gan gadarnhau eu bod wedi glanhau ac archwilio eu hoffer. | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | |
| Gofyn i glybiau genweirio ddilyn arferion bioddiogelwch da (gweler yr adrannau perthnasol isod). | | | ✓ (clybiau aelodaeth) | ✓ | | | | | | |
| Hyrwyddo canllawiau perthnasol i reolwyr asedau ym Mhrydain Fawr a thramor. | | | | ✓ | | ✓ | | | | |
| Gosod cyfleusterau glanhau mewn mannau mynediad. | | | | ✓ (ar bob safle risg uchel) | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Defnyddio mesurau bioddiogelwch (e.e. polisi rhwydi sych). | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darparu offer y gellir eu benthyg a'u defnyddio yn lle offer personol. | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | |
| Rhoi sticeri gwrth-ddŵr *Edrych, Golchi, Sychu* ar offer sy'n eiddo i'r clwb i atgoffa defnyddwyr i ddilyn egwyddorion bioddiogelwch. | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | |
| Ystyried mesurau bioddiogelwch ychwanegol ar gyfer | | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |

Pre-consultation Draft

| | Glandŵr Cymru a Chamlesi'r Alban | Asiantaeth yr Amgylchedd ac CNC | Yr Ymddiriedolaeth Genweirio a sefydliadau genweirio eraill | Cwmnïau dŵr a pherchnogion asedau dyfrol eraill lle caniateir genweirio | Trefnwyr genweirio cystadleuol | Trefnwyr teithiau genweirio | Perchnogion pysgodfeydd hamdden – Prydain Fawr, Ffrainc, ac ati | Awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill (sy'n berchen ar neu'n rheoli pysgodfeydd) | Clybiau genweirio | Ymddiriedolaethau afonydd a physgodfeydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| digwyddiadau/cystadlaethau. | | | | | | | | | | |
| Sicrhau bod mesurau bioddiogelwch ychwanegol ar waith ar gyfer digwyddiadau/cystadlaethau risg uchel – y rhai sydd â llawer o gystadleuwyr yn dod â'u hoffer eu hunain o dramor. | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | |
| Hyfforddi staff, hyfforddwyr genweirio, wardeniaid, hyrwyddwyr bioddiogelwch a gwirfoddolwyr mewn bioddiogelwch. | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | |
| Annog aelodau i ddilyn hyfforddiant bioddiogelwch. | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | |
| Integreiddio bioddiogelwch i hyfforddiant. | | | ✓ | ✓ | | | | | | |
| Integreiddio bioddiogelwch i is-ddeddfau. | | | | ✓ | | | | | | |
| Cynorthwyo â datblygu a dosbarthu negeseuon wedi'u teilwra ar gyfer is-sectorau yn ôl yr angen. | | | ✓ | | | | | | | |

Pre-consultation Draft

**Atodiad 4**: Cod Ymarfer Genweirio Prydain Fawr.

Pre-consultation Draft

**Atodiad 5**: Canllawiau/cynllun bioddiogelwch cytunedig ar gyfer perchnogion pysgodfeydd ym Mhrydain Fawr.

Pre-consultation Draft

**Atodiad 6:** Rhestr o rywogaethau â blaenoriaeth yr ydym am eu cadw allan (nid yw'r rhan fwyaf yn bresennol ym Mhrydain Fawr eto ond mae rhai yn bresennol ac nid ydym am i bobl ddod â hwy i mewn eto) ac y mae perygl y cânt eu cyflwyno drwy enweirio. [Mae sgoriau effaith yn dod o: Gallardo, Belinda ac Aldridge, David (2013). Review of the ecological impact and invasion potential of Ponto Caspian invaders in Great Britain.]

*Rhywogaethau dŵr croyw a lled hallt*

| Blaenoriaeth | Enw Lladin | Enw cyffredin | Effaith | Blwyddyn y cyflwynwyd i Brydain Fawr | Yn eang eu gwasgariad? |
|---|---|---|---|---|---|
| Uchel iawn | *Neogobius melanostomus* | Gobi crwn | 5 | | |
| | *Proterorhinus semiluaris* | Gobi trwynir dŵr croyw | 5 | | |
| | *Proterorhinus marmoratus* | Gobi trwynir | 5 | | |
| Uchel | *Neogobius gymnotrachelus* | Gobi chwim | 4 | | |
| | *Dreissena r. bugensis* | Cregen las ledresog | 5 | 2014 | Lleol iawn |
| | *Dikerogammarus villosus* | Berdysyn rheibus | 4 | 2010 | Lleol iawn |
| | *Myriophyllum heterophyllum* | Myrdd-ddail amrywiol | - | 2015 | Lleol iawn |
| | *Ludwigia peploides* | Briallen y dŵr | - | | |
| Canolig | *Echinogammarus ischnus* | | 3 | | |
| | *Echinogammarus trichiatus* | | 3 | | |
| | *Dikerogammarus bispinosus* | | 3 | | |
| | *Limnomysis benedeni* | | 3 | | |
| | *Obesogammarus crassus* | | 3 | | |
| | *Pontogammarus robustoides* | | 3 | | |
| | *Hypania invalida* | | 3 | 2008 | Lleol |
| | *Chelicorophium robustum* | | 3 | | |
| | *Chelicorophium sowinskyi* | | 3 | | |
| | *Alternaterna philoxeroides* | | - | | |

*Rhywogaethau morol*

| Blaenoriaeth | Enw Lladin | Enw cyffredin |
|---|---|---|
| Uchel ac uchel iawn | *Amffibalanus reticulatus* | Gŵydd fôr |
| | *Caulerpa racemose* | Grawnwin y môr |
| | *Dyspanopeus sayi* | Lleidgranc Say |
| | *Megabalanus coccopoma* | Gŵydd fôr mes titan |
| | *Megabalanus zebra* | Gŵydd fôr |
| | *Polysiphonia subtilissima* | Algâu coch |
| | *Pseudochattonella verruculosa* | Algâu |
| Canolig | *Alexandrium catenella* | Dinofflangellog |
| | *Asterias amurensis* | Seren fôr gwaelod gwastad |
| | *Rapana venosa* | Cragen foch gwythiennau rapa |
| | *Rhopilema nomadica* | Slefren fôr nomadaidd |

**Atodiad 7:** Cymal bioddiogelwch yr Ymddiriedolaeth Genweirio i'w gynnwys yng nghyfansoddiadau clybiau genweirio.

Darparu deunyddiau *Edrych, Golchi, Sychu* i'w haelodau. Gallai hyn gynnwys arwyddion a deunyddiau'n cael eu harddangos wrth ddyfroedd y clwb neu mewn mannau mynediad, canllawiau ar wefan y sefydliad, erthyglau nodwedd mewn cylchlythyrau, ac anfon deunyddiau at aelodau newydd pan fyddant yn ymuno.

**BIODDIOGELWCH**

Gofynnir i aelodau'r clwb ddilyn arferion bioddiogelwch da tra'u bod yn defnyddio dyfroedd pysgota'r clwb. Mae hyn yn cynnwys:

Sicrhau bod eu hoffer yn sych ac yn rhydd o fwd a deunydd planhigion cyn cyrraedd y safle.

Ar ôl pob taith bysgota, glanhau eu hoffer ac esgidiau yn unol â chanllawiau *Edrych, Golchi, Sychu*. Dylid rhoi gofal arbennig i wnïad esgidiau a rhydwyr ac ymylon rhwydi.

Gofynnir i ddefnyddwyr tocynnau dydd sy'n ymweld â'r clwb ddilyn yr un canllawiau *Edrych, Golchi, Sychu*.

Pre-consultation Draft

**Atodiad 8:** Rhestr o rywogaethau critigol o dan gyfyngiadau Prydain Fawr yr ydym am, fel mater o flaenoriaeth, eu cyfyngu neu arafu eu lledaeniad ac y mae perygl iddynt ymledu drwy enweirio.

Dŵr croyw a lled hallt

| | |
|---|---|
| *Dikerogammarus villosus* | Berdysyn rheibus |
| *Dreissena bugensis* | Cragen las ledresog |
| *Myriophyllum heterophyllum* | Myrdd-ddail amrywiol |
| *Pseudorasorba parva* | Llyfrothen uwchsafn |

Morol

| | |
|---|---|
| *Asterocarpa humilis* | Chwistrell fôr gwmpawd |
| *Crepidula fornicata* | Ewin mochyn |
| *Didemnum vexillum* | Chwistrell fôr garped |
| *Eriocheir sinensis* | Cranc manegog Tsieina |
| *Hemigrapsus takanoi* a *sanguineus* | Crancod Asiaidd y lan |

Pre-consultation Draft